Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

# CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



## GAEAF 2017/18

## Croeso i newyddlen Gaeaf 2017/18 y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar lwyddiannau diweddar yn CHEME. Mae'r prif bwyntiau yn cynnwys

- Astudiaethau ar y cyd gyda Phrifysgol Lerpwl ar atal colli golwg, a gyllidir gan NIHR, a thriniaethau i lymffoma ffoligaidd a gyllidir gan Cancer Research UK (CRUK).
- Dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol a rhyngwladol yn ymwneud â thriniaethau i afiechydon prin, diogelwch cyffuriau rhag epilepsi, a dadfuddsoddiad meddyginiaethau aneffeithiol (ac o werth isel).
- Webinarau diweddar yn Toronto a'r Deyrnas Unedig ar roi gwerth ar natur a gofal gwyrdd mewn economeg iechyd.

Ceir mwy o wybodaeth ar ymchwil, dysgu a gweithgareddau cefnogol GIG ar ein gwefan: cheme.bangor.ac.uk neu drwy gysylltu â'n gweinyddwr Ann Lawton: cheme@bangor.ac.uk

Dilynwch ni ar Twitter @CHEMEBangor

**Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards a'r Athro Dyfrig Hughes**

Cyd-gyfarwyddwyr CHEME

## YN Y RHIFYN HWN...


Rhoi sylw i ymchwil
Digwyddiadau i ddod
Newyddion am Staff
Digwyddiadau Diweddar
Cyhoeddiadau diweddar




Webinar economeg iechyd cyhoeddus a'r amgylchedd naturiol gan Rhiannon Tudor Edwards

http://cheme.bangor.ac.uk/webinars.php.en

## RHOI SYLW I YMCHWIL...

### Atal colli golwg

Mae Seow Tien Yeo a Rhiannon Tudor Edwards yn gyd-ymchwilwyr ar astudiaeth tomograffeg cydlyniad optegol (OCT) gwerth £1.3 miliwn a gyllidir gan NIHR-i4i. Fe'i harweinir gan Dr Yalin Zheng o Adran Gwyddor Llygaid a Golwg Prifysgol Lerpwl.  Nod yr astudiaeth yw datblygu ac archwilio datblygiad clinigol teclyn OCT sensitif iawn (US-OCT) i wella rheoli afiechydon y llygaid, gan alluogi eu canfod a'u diagnosio'n gynharach, llunio cynlluniau rheolaeth glinigol bersonol, a gwella monitro canlyniadau triniaeth i gleifion gydag afiechydon cornbilennol.

### Lymffona ffoligaidd

Canser sy'n tyfu'n araf yn y chwarennau lymff yw lymffona ffoligaidd (FL).  Mae Dyfrig Hughes yn gyd-ymchwilydd ar broject ymchwil Cancer Research UK (CRUK) gyda'r teitl: Phase 3 evaluation of PET-guided, Response-Adapted therapy in patients with previously untreated, high tumour burden follicular lymphoma (PETReA). Arweinir y project hwn gan Yr Athro Andrew Pettitt o Brifysgol Lerpwl, gyda Colin Ridyard yn economegydd y treial. Disgwylir i'r treial hwn ddylanwadu ar reoli cleifion gyda FL yn y dyfodol drwy adnabod a thrin y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o ailwaelu.



### Atal poen wrth sgrinio'r perfedd

Mae Seow Tien Yeo a Rhiannon Tudor Edwards yn gyd-ymchwilwyr ar astudiaeth Water-Assisted Sigmoidoscopy (WAS) gwerth £347,027 a gyllidir gan NIHR-RfPB. Fe'i harweinir gan Yr Athro Matt Rutter o University Hospital of North Tees.  Nod yr astudiaeth yw ymchwilio i weld a yw cleifion yn dweud eu bod yn cael llai o boen yn ystod sgrinio wrth ddefnyddio WAS o'i gymharu â mewnblanaid gyda chymorth $CO_2$.

### Adnewyddu cyllid isadeiledd i gyfarfod Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru (WHESS) a Grŵp Economeg Iechyd Cymru (WHEG) yn 2017

Gyda'i gilydd bu CHEME ym Mhrifysgol Bangor a Chanolfan Economeg Iechyd Abertawe ym Mhrifysgol Abertawe'n llwyddiannus yn cael cyllid pellach o £800,000 gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru am y cyfnod 2018-2020.  Diben y cyllid hwn, sydd i Gymru gyfan, yw i ddarparu cefnogaeth economeg iechyd i ychwil gofal iechyd drwy'r Gwasanaeth Cynllunio a Chynnal Ymchwil, a pheth cefnogaeth bolisi i fyrddau iechyd. Cynhaliodd WHEG gyfarfod ym Mhrifysgol Bangor ac roeddem yn hynod falch o groesawu'r Athro Steve Morris (UCL) a Dr Steve Watkins (Iechyd Cyhoeddus Stockport) fel ein siaradwyr allanol.

## DIGWYDDIADAU

### Digwyddiadau sydd i ddod

Colin Angus o Health Economics Decision Science, Prifysgol Sheffield, fydd ein siaradwr gwadd yn Chwefror fel rhan o'n cyfres seminarau.

Ym Mai 2018 bydd CHEME yn cynnal Colocwiwm Ffarmacoleg Clinigol y British Pharmacological Society.  Dyma fydd y trydydd achlysur i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal ym Mangor.

Caiff y cyrsiau byr mewn Ffarmacoeconomeg ac Economeg Iechyd Cyhoeddus eu cynnal ym Mawrth ac Ebrill 2018.

Mae cofrestru nawr yn agored:

http://cheme.bangor.ac.uk/digwyddiadau/ffarmacoeconomeg-cwrs-byr-34917

http://cheme.bangor.ac.uk/health-economics-course-16.php.cy

### Codi arian

Cynhaliodd Emily Holmes Baned a Sgwrs i Epilepsy Action yn CHEME ar 23 Hydref a chasglwyd £46.26 tuag at grwpiau coffi a sgwrsio i bobl y mae epilepsi'n effeithio arnynt.



# NEWYDDION AM STAFF...

## Llongyfarchiadau Dr Emily Holmes

Graddiodd Emily Holmes gyda PhD mewn Economeg Iechyd ar 18 Gorffennaf.



Testun ei gwaith ymchwil oedd "Understanding medication adherence: application of health psychology and behavioural economic theories" ac fe'i goruchwyliwyd gan yr Athrawon Dyfrig Hughes a Val Morrison.

## Penodiad newydd

Mae gan Dr Victory Ezeofor PhD mewn Meddygaeth Fathemategol a Bioleg o Brifysgol Nottingham. Mae wedi hyfforddi hefyd fel gwyddonydd/dadansoddwr data. Ei brif faes ymchwil yw modelu mathemategol/ystadegol rhwydweithiau cymhleth, modelau penderfynedig ac arwahanol. Mae CHEME yn hynod falch o groesawu Victory fel modelydd mathemategol ac ystadegol yn ymuno â'r Grŵp Ymchwil Economeg Iechyd Cyhoeddus.

Mae'r Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau yn falch bod Dr Abdullah Al-Bassam wedi ymuno â ni am flwyddyn fel ymchwilydd gwadd o Brifysgol Kuwait. Bydd ei ymchwil yn canolbwyntio ar gadw at feddyginiaeth.

## Modiwl MSC

Mae CHEME yn falch o groesawu'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr i fodiwl Economeg Iechyd y radd Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus a Hybu Iechyd yn yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd ym Mhrifysgol Bangor.



## Llongyfarchiadau i Dr Carys Jones sydd wedi derbyn Cymrodoriaeth

Mae oddeutu 45,000 o bobl yng Nghymru sy'n byw gyda dementia a chredir fod cost y salwch yn £1.4 biliwn y flwyddyn. Rhan uchaf y gost hon yw gofal di-dâl gan deulu a ffrindiau. Gall gwasanaethau cynnal fod yn dameidiog ac yn anodd i bobl fynd atynt ar draws sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Dr Carys Jones wedi derbyn Cymrodoriaeth Gofal Cymdeithasol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i edrych ar werth gwasanaethau trydedd sector i deuluoedd sy'n gofalu am bobl yn dioddef o ddementia. Dros y pedair blynedd nesaf, bydd y gymrodoriaeth yn nodi beth sy'n gweithio i bwy wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, tynnu sylw at enghreifftiau o arfer gorau, ac archwilio ffactorau sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r gwasanaethau a mynd atynt.



## Dylanwadu ar bolisi ar ddiogelwch cyffuriau ...

Rhoddodd Emily Holmes a Dyfrig Hughes dystiolaeth i wrandawiad cyntaf yr Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd, ar ddiogelwch y cyffur gwrth-epilepsi, valporate,mewn merched a all gael plant.

## ... a'u heffeithiolrwydd

Rhoddodd Dyfrig gyflwyniad mewn uwchgynhadledd ddadgomisiynu NICE/NHS Lloegr ar "A framework for the identification and appraisal of medicines for disinvestment".

## Webinar: Economeg iechyd cyhoeddus a'r amgylchedd naturiol

Fel rhan o'r gyfres Ecosystems.net cyflwynodd Rhiannon Tudor Edwards ac Adams Koshy (Eftec, Environmental Economics) webinar gyda'r teitl: ***A practical guide to measuring and valuing the natural environment as a way of improving population health.***

## Catrefi cynnes i gael iechyd gwell

Cyhoeddodd Nathan Bray, Rhiannon Tudor Edwards ac Eira Winrow erthygl yn The Conversation am effeithiau iechyd ac effeithiau economaidd tai gwael a thlodi tanwydd.

https://theconversation.com/investing-in-warmer-housing-could-save-the-nhs-billions-82196

Ymddangosodd yr ymchwil hefyd yn Public Sector Focus.

http://flickread.com/edition/html/index.php?pdf=59f1ee7a05b3e#36

## Cyffuriau amddifad

Rhoddodd Dyfrig Hughes gyflwyniad ar gyffuriau amddifad i gyfarfod gaeaf y Royal Pharmaceutical Society yn Llundain, a chyflwyniad ar Fynediad Cyffredinol a Meddyginiaethau Fforddiadwy i fforwm Cynghrair Iechyd Cyhoeddus Ewrop ym Mrwsel. Mae gan y rhaglen ymchwil hon, gyda Siobhan Bourke, myfyriwr PhD, oblygiadau posibl gydag adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o gymhellion ariannol mewn datblygu cyffuriau amddifad.

## Adalimumab ar gyfer JIA-uveitis

Yn ddiweddar fe wnaeth Giovanna Culeddu, Eifiona Wood, Catrin Plumpton a Dyfrig Hughes gwblhau gwerthusiad economaidd o'r treial SYCAMORE, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn y NEJM. Mae'r darganfyddiadau'n debygol o oleuo polisi'r GIG ar ddarparu adalimumab i ddangos uveitis yn gysylltiedig ag arthritis idiopathig mewn pobl ifanc.

Nod PhD Giovanna, a fydd yn cynnwys dadansoddiadau o'r treial SYCAMORE yw archwilio dulliau Bayesaidd o ddadansoddi cost-effeithiolrwydd.

## Cyflwyniadau

Aeth Hannah Grey, myfyriwr PhD, i gynhadledd PhD Iechyd Cyhoeddus ym Mhrifysgol John Moores yn Lerpwl ac enillodd am y cyflwyniad poster gorau. Mae wedi cael ei derbyn hefyd i gyflwyno poster a mynychu gweithdy yng Nghynhadledd Flynyddol y Children's Residential Centers yn Boston.

Cynhaliodd Nathan Bray seminar ar ei ymchwil gymrodoriaeth yn Uned Economeg Iechyd Prifysgol Birmingham. Teitl y cyflwyniad seminar oedd: "Mobility and Quality of Life: Developing a preference-based outcome measure to assess the impact of mobility on quality of life".

Rhoddodd Emily Holmes gyflwyniad yn y cyfarfod "Byw gydag Epilepsi" a gynhaliwyd gan Epilepsy Action Cymru.

Rhoddodd Dan Hill-McManus gyflwyniad ar effaith diffyg ymlyniad ar ddiogelwch ac effeithiolrwydd triniaethau ar gyfer gowt yn yr European Society for Patient Adherence, Compliance and Persistence (ESPACOMP) yn Budapest; roedd yn rhan o'i PhD yn cysylltu dadansoddiadau ffarmacometrig a ffarmacoeconomaidd.

**Da iawn Colin Ridyard**

Enillodd Colin Ridyard y wobr am y poster gorau yn ISPOR yn Glasgow, lle cyflwynodd 4 poster yn ymwneud â'r treial Inswlin Tangroen: Pympiau neu Bigiadau. Ceir manylion am SCIPI ar: http://www.scipitrial.org.uk/index.html




## Cyhoeddiadau Diweddar

MONIZ-COOK, E., HART, C., WOODS, B., WHITAKER, C., JAMES, I., RUSSELL, I., EDWARDS, R.T., HILTON, A., ORRELL, M., CAMPION, P., STOKES, G. (2017). Challenge Demcare: management of challenging behaviour in dementia at home and in care homes–development, evaluation and implementation of an online individualised intervention for care homes; and a cohort study of specialist community mental health care for families. National Institute for Health Research (NIHR), Programme Grants for Applied Research 5(15). DOI: 10.3310/pgfar05150

Williams NH, Roberts JL, Din NU, Charles JM, Totton N, Williams M, et al. Developing a multidisciplinary rehabilitation package following hip fracture and testing in a randomised feasibility study: Fracture in the Elderly Multidisciplinary Rehabilitation (FEMuR). Health Technology Assessment 2017; 21: 44 https://dx.doi.org/10.3310/hta21440

Hill-McManus D, Soto E, Marshall S, Lane S, Hughes D. Impact of non-adherence on the safety and efficacy of uric acid-lowering therapies in the treatment of gout. Br J Clin Pharmacol. 2017 Sep 9. doi: 10.1111/bcp.13427.

Ridyard CH, Plumpton CO, Gilbert RE, Hughes DA. Cost-Effectiveness of Pediatric Central Venous Catheters in the UK: A Secondary Publication from the CATCH Clinical Trial. Front Pharmacol. 2017 Sep 19;8:644.

Hagemi A, Plumpton C, Hughes DA. Renal transplant patients' preference for the supply and delivery of immunosuppressants in Wales: a discrete choice experiment. BMC Nephrol. 2017 Oct 2;18(1):305.

Barker S, Lynch M, Hopkinson J. Decision making at the end of life for people with dementia by their informal carers: a rapid scoping review. Int J Palliat Nurs. 2017 Sep 2;23(9):446-456.

Powell GA, Bonnett LJ, Tudur-Smith C, Hughes DA, Williamson PR, Marson AG. Using routinely recorded data in the UK to assess outcomes in a randomised controlled trial: The Trials of Access. Trials. 2017 Aug 23;18(1):389.

Kamaraj DC, Bray N, Rispin K, Kankipati P, Pearlman J, Borg J. A conceptual framework to assess effectiveness in wheelchair provision. Afr J Disabil. 2017 Sep 8;6:355.

Bray N, Noyes J, Harris N, Edwards RT. Measuring the health-related quality of life of children with impaired mobility: examining correlation and agreement between children and parent proxies. BMC Res Notes. 2017 Aug 10;10(1):377.

Bray N, Noyes J, Harris N, Edwards RT. Defining health-related quality of life for young wheelchair users: A qualitative health economics study. PLoS One. 2017 Jun 15;12(6):e0179269.

Bray N, Burns P, Jones A, Winrow E, Edwards RT. Costs and outcomes of improving population health through better social housing: a cohort study and economic analysis. Int J Public Health. 2017 Dec;62(9):1039-1050.

Morris C, Dunkley C, Gibbon FM, Currier J, Roberts D, Rogers M, Crudgington H, Bray L, Carter B, Hughes D, Tudur Smith C, et al. Core Health Outcomes In Childhood Epilepsy (CHOICE): protocol for the selection of a core outcome set. Trials. 2017 Nov 28;18(1):572.

Williams NH, Jenkins A, Goulden N, Hoare Z, Hughes DA, Wood E, Foster NE, Walsh DA, Carnes D, Sparkes V, Hay EM, Isaacs J, Konstantinou K, Morrissey D, Karppinen J, Genevay S, Wilkinson C. Subcutaneous Injection of Adalimumab Trial compared with Control (SCIATiC): a randomised controlled trial of adalimumab injection compared with placebo for patients receiving physiotherapy treatment for sciatica. Health Technol Assess. 2017 Oct;21(60):1-180.

Plumpton CO, Alfirevic A, Pirmohamed M, Hughes DA. Cost effectiveness analysis of HLA-B*58:01 genotyping prior to initiation of allopurinol for gout. Rheumatology (Oxford). 2017 Oct 1;56(10):1729-1739.

Lynch M. Are we missing an opportunity in Nurse Education? Nursing and Healthcare International Journal. 2017;1(2):000112.

cheme.bangor.ac.uk
cheme@bangor.ac.uk
01248 382153
@CHEMEBangor

**Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau**
**Ardudwy, Safle Normal, Prifysgol Bangor,**
**Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ**